

# Urdd Gobaith Cymru



**Polisi a Chanllawiau Gwrth Fwlio a delio ag Aflonyddu**

**Fersiwn 12**

**Cyhoeddwyd: Ebrill 2023**

## Datganiad o Fwriad

Mae Urdd Gobaith Cymru yn ymroddedig i ddarparu amgylchedd cyfeillgar a diogel ar gyfer ein holl aelodau, staff a gwirfoddolwyr. **Ni dderbynnir unrhyw ffurf o fwlio nag aflonyddu o fewn unrhyw ran o'r Urdd.** Os oes achos o fwlio neu aflonyddu, dylai aelodau allu siarad yn agored gan wybod yr ymdrinnir â'r digwyddiadau yn brydlon ac effeithiol.

Nod y polisi hwn yw diogelu aelodau, staff a gwirfoddolwyr Urdd Gobaith Cymru. Eithriadau yw ymddygiad amhriodol a bygythiol tuag at aelodau, staff a gwirfoddolwyr, a llwyddiant yr Urdd yw'r gallu i gydweithio rhwng aelodau, staff, gwirfoddolwyr, cyhoedd, ysgolion, rheini a gwarchodwyr.

## Amcanion y Polisi hwn

- Egluro'r camau sydd angen eu dilyn wrth drin a digwyddiadau yn ymwneud a bwlio ac aflonyddu.
- Dylai'r holl aelodau, gwirfoddolwyr, arweinyddion clybiau, staff a rhieni fod â dealltwriaeth o beth yw bwlio ac aflonyddu.
- Dylai'r holl aelodau, gwirfoddolwyr, arweinyddion clybiau, staff a rhieni fod yn ymwybodol o bolisi'r Urdd o safbwynt bwlio ac aflonyddu, ac yn gallu ei ddilyn pan mae bwlio yn digwydd ac y rhoddir adroddiad am achos o fwlio neu aflonyddu.
- Mae'r Urdd yn delio ag achosion o'r fath o ddifrif. Dylid sicrhau aelodau a rhieni, staff a gwirfoddolwyr y byddant yn derbyn cefnogaeth pan yr adroddir am achos o fwlio.

**Os ydych yn teimlo eich bod wedi dioddef o fwlio neu aflonyddu tra ar weithgareddau'r Urdd dilynwch y camau canlynol:-**

- **Os yn aelod o'r Urdd - Cysylltwch yn syth gyda'ch arweinydd gweithgaredd neu swyddog Urdd leol**
- **Os yn wirfoddolwyr - Cysylltwch â'ch Swyddog Urdd leol**
- **Os yn aelod o staff, gan gynnwys prentis a gyflogwyd gan yr Urdd cysylltwch â'ch Rheolwr/Cyfarwyddwr neu'r Adran Adnoddau Dynol yr Urdd**
- **Os yn brentis ar gynllun prentisiaeth yr Urdd, boed yn uniongyrchol neu drwy'n partneriaeth darparu allanol, cysylltwch gyda'r Rheolwr Prentisiaethau**

## Beth yw bwlio ac aflonyddu?

Bwlio ac aflonyddu yw unrhyw ymddygiad sy'n achosi poen a gofid i'r dioddefydd.

Mae sawl math o fwlio ac aflonyddu, yn cynnwys:

- ① *Emosiynol* bod yn anghyfeillgar, eithrio, tyrmentio, pwysau cyfoedion (e.e. Cuddio eiddo, negeseuon cyfryngau annymunol, ystumiau bygythiol)
- ① *Corfforol* gwthio, cicio, taro neu unrhyw ddefnydd o drais corfforol
- ① *Hiliol* sylwadau hiliol, graffiti, ystumiau
- ① *Rhywiol* cyswllt corfforol diangen neu wneud sylwadau sy'n gyfystyr â

chamdriniaeth rywiol

- ① *Cyfeiriadedd Rhywiol* a hunaniaeth rhywedd, gwahaniaethu ac aflonyddu ar sail bod yn hoyw, lesbiaid, deurywiol a thraws.
- ① *Homoffobig* gweithredoedd neu sylwadau sy'n canolbwyntio ar faterion o rywioldeb
- ① *Llafar* galw enwau, bod yn sarcastig, rhoddi sïon ar led, pryfocio
- ① *Crefyddol* gwawdio hiliol, graffiti, ystumiau
- ① *Materol* pan y dwynir neu ddifrodir eiddo neu y gorfodir rhywun i roddi arian

Nid yw bwlio ag aflonyddu yr un fath ag anghytundeb rhwng dau berson. Maent yn:

- Systematig ac yn digwydd yn gyson neu weithiau gall fod yn ddigwyddiad unigol.
- Cael ei wneud gan berson sy'n ystyried ei hun yn fwy grymus na'r sawl y maent yn fwlio yn hytrach na rhwng rhai sy'n gyfartal.
- Creu gofid a phoen i'r dioddefydd.
- Unochrog bob amser yn hytrach nag yn broses gyfnewidiol.
- Digwydd wyneb i wyneb, mewn grwpiau ac ar lein trwy gyfryngau digidol.

## 1. Pwy all gael eu bwlio?

Gall unrhyw un ddiodeff bwlio neu aflonyddu gan berson arall - er enghraifft gall *aelodau, staff, a gwirfoddolwyr gael eu bwlio gan gyd-aelodau, cydweithwyr a chyd-wirfoddolwyr. Gall hefyd cynnwys rhieni ac aelodau'r cyhoedd.*

## 2. Pam y mae'n bwysig ymateb i fwlio ac aflonyddu?

Mae bwlio'n ac aflonyddu yn achosi poen. Nid oes unrhyw un yn haeddu diodeff bwlio neu aflonyddu. Mae'n creu cywilydd ac ofn, ac yn aml bydd pobl ifanc ac oedolion yn teimlo nad oes ganddynt y grym i'w atal. Mae gan bob unigolyn hawl i dderbyn parch. Disgwylir aelodau ac unigolion ymddwyn mewn modd sydd yn gefnogol a sydd yn trin pawb gyda pharch.

Mae gennym gyfrifoldeb i ymateb yn brydlon ac yn effeithiol i faterion bwlio ac aflonyddu.

## 3. Arwyddion a Symptomau bwlio

Gall arwyddion neu ymddygiad unigolyn awgrymu ei fod ef/hi yn diodeff bwlio. Dylai oedolion fod yn ymwybodol o'r arwyddion hyn a dylent archwilio ymhellach os yw aelod:

- Yn gwneud cais penodol i gael bod yng nghwmni eraill wrth fynd i neu ddychwelyd o weithgaredd yr Urdd (fodd bynnag gall fod yn naturiol i aelodau iau wneud cais o'r math hwn)
- Heb awydd mynychu'r digwyddiad pan mae person neu grŵp o bobl benodol yn bresennol
- Yn encilgar, yn bryderus, neu â diffyg hyder
- Colli diwrnodau o'r gwaith
- Yn teimlo'n sâl yn ystod digwyddiadau
- Ag eiddo yn "mynd ar goll"
- Yn ofni dweud beth sydd o'i le
- Yn cynnig esgusion annhebygol am unrhyw un o'r uchod.

Gallai'r arwyddion hyn awgrymu problemau eraill, ond dylid ystyried y posibilrwydd o fwlio/aflonyddu a dylid ymchwilio ymhellach.

## 4. Strategaethau Atal bwlio

- Annog darpariaeth ac amgylchedd sydd yn hyrwyddo ethos sy'n sicrhau parch ar gyfer yr unigolyn
- Annog adrannau, aelwydydd a chlybiau i ddatblygu eu polisi gwrth-fwlio eu hunain gan gynnwys aelodau, staff a gwirfoddolwyr ac adnabod y gefnogaeth sydd ar gael yn lleol. Dylid ei adolygu'n gyson ar ôl ei sefydlu
- Annog adrannau, aelwydydd a chlybiau i godi ymwybyddiaeth aelodau o effaith negyddol bwlio ac aflonyddu
- Datblygu'r math o ddiwylliant ble gall diodeffwyr ofyn am gymorth heb stigma
- Cynorthwyo gwirfoddolwyr a staff gweithgareddau, adrannau, aelwydydd a chlybiau i adnabod y gall gweithredu'n gyflym atal sefyllfaoedd mwy difrifol rhag codi yn ddiweddarach

- Annog adrannau, aelwydydd a chlybiau i weithredu'n effeithiol a chosbi bwllis a'r rhai sydd yn aflonyddu
- Datblygu strategaeth hyfforddiant ar gyfer staff, gwirfoddolwyr ac aelodau hŷn, i'w galluogi i gael mynediad i hyfforddiant yn lleol.
- Annog trafodaeth agored rhwng brentisiaid yr Urdd gan godi ymwybyddiaeth a sicrhau parch.

## 5. Gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â bwlio (plant a phobl ifanc)

*(Os ydych yn credu fod digwyddiad yn fater amddiffyn plant yn hytrach na bwlio, cyfeiriwch at y canllawiau diogelu plant Urdd Gobaith Cymru)*

Dylai pob aelod o staff/gwirfoddolwr ymateb i fwlio yn y lle cyntaf trwy:

- Wrando ar y dioddefydd
- Rhoi sicrwydd i'r dioddefydd
- Parhau i gynnig cymorth, cyngor a chefnogaeth i'r dioddefydd

Wrth ymateb i achosion o fwlio ac wrth dderbyn adroddiad am achosion o fwlio, dylai pob aelod o staff / gwirfoddolwr weithredu fel a ganlyn:

- Dylid gweithredu'n syth i atal y bwlio neu fygythiadau o fwlio. Wrth weithredu, dylid gofalu nad yw'r sefyllfa'n gwaethgu. Gall y person sy'n adrodd am y bwlio fod yn ymwneud â'r bwlio mewn rhyw fodd a gall y cyhuddiadau fod yn faleisus, hefyd gall gweithredu'n rhy fuan heb ystyried y sefyllfa yn briodol waethgu'r bwlio.
- Sicrhewch fod y person sy'n dioddef bwlio yn derbyn cefnogaeth ac yn cael ei (d)diogelu.
- Ystyriwch a ddylech weithredu yn gyhoeddus neu'n breifat.
- Anogwch eraill i leisio'u safbwyntiau i sefydlu ymddiriedaeth a thegwch os yn addas.
- Mynegwch yn glir i'r bwli nad yw ymddygiad o'r fath yn dderbyniol.
- Ystyriwch os yw'r achos o fwlio yn rhan o batrwm o ddigwyddiadau.
- Anogwch y bwli i ystyried safbwynt y dioddefydd.
- Eglurwch y rheswm am roddi cosb (os oes un).
- Hysbyswch y rhieni os yn berthnasol.
- Cysylltwch â Chyfarwyddwr adran yr Urdd a'u hysbysu o'r sefyllfa a gofyn am gyngor a chefnogaeth.
- Mewn achosion o fwlio neu aflonyddi, rhaid cofnodi'r digwyddiad. (gweler atodiad 1)
- Dylid hysbysu'r rhieni ymhob achos o fwlio sy'n cynnwys aelodau) sy'n iau na 18 oed.
- Os yn angenrheidiol ac yn addas, ymgynghori â'r heddlu.
- Gwneir pob ymdrech i gynorthwyo'r bwli(s) i newid ei/eu (h)yymddygiad.

### Canlyniadau

- Dylid gwneud iawn am unrhyw niwed a achosir gan fwlio cyn gynted â phosibl,
- Dylai'r bwli gymryd cyfrifoldeb am y gweithredoedd. Er enghraifft, dylid gofyn i'r bwli(s) gynnig ymddiheuriad diffuant.
- Mewn achosion difrifol, gellir gwahardd y bwli o ddigwyddiad penodol a/neu gyfeirio'r mater at yr Awdurdodau perthnasol.
- Os oes modd, bydd yr aelodau yn cymodi.

- Yn dilyn ymchwilio i'r digwyddiad(au), bydd pob achos yn cael ei fonitro i sicrhau nad yw bwlio yn digwydd.

## 6. Gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â bwlio neu aflonyddu at oedolion ( Staff a Gwirfoddolwyr)

Os yw staff neu wirfoddolwyr yn teimlo eu fod wedi eu aflonyddu neu dan ddylanwad bwli, mae angen iddynt cyfeirio'r mater yn syth at un o reolwyr/cyfarwyddwyr/adran Adnoddau Dynol yr Urdd

Dylai pob rheolwr / cyfarwyddwr ymateb i fwlio neu aflonyddu yn y lle cyntaf trwy:

- Wrando ar y dioddefydd
- Rhoi sicrwydd i'r dioddefydd
- Parhau i gynnig cymorth, cyngor a chefnogaeth i'r dioddefydd

Wrth ymateb i achosion o fwlio neu aflonyddu ac wrth dderbyn adroddiad am achosion o fwlio, dylai pob rheolwr / cyfarwyddwr weithredu fel a ganlyn:

- Cysylltu ag Adran Adnoddau Dynol yr Urdd a'u hysbysu o'r sefyllfa a gofyn am gyngor a chefnogaeth.
- Dylid gweithredu'n syth i atal y bwlio/aflonyddu neu fygythiadau o fwlio/aflonyddu. Wrth weithredu, dylid gofalu nad yw'r sefyllfa'n gwaethygu. Gall y person sy'n adrodd am y bwlio/aflonyddu fod yn ymwneud â'r bwlio mewn rhyw fodd a gall y cyhuddiadau fod yn faleisus, hefyd gall gweithredu'n rhy fuan heb ystyried y sefyllfa yn briodol waethygu'r bwlio.
- Sicrhewch fod y person sy'n dioddef bwlio yn derbyn cefnogaeth ac yn cael ei (d)diogelu.
- Ystyriwch a ddylech weithredu yn gyhoeddus neu'n breifat.
- Anogwch eraill i leisio'u safbwyntiau i sefydlu ymddiriedaeth a thegwch os yn addas.
- Mynegwch yn glir ar ran yr Urdd nad yw ymddygiad o'r fath yn dderbyniol ac i hystyried safbwynt y dioddefydd.
- Ystyriwch os yw'r achos o fwlio/aflonyddu yn rhan o batrwm o ddigwyddiadau.
- Os am gyflwyno cosb neu'r broses disgyblu, eglurwch y rhesymau am ddilyn y trywydd yma.
- Hysbyswch randeiliaid eraill os yn berthnasol.
- Mewn achosion o fwlio ac aflonyddu, rhaid cofnodi'r digwyddiad. (gweler atodiad 1)
- Os yn angenrheidiol ac yn addas, ymgynghori â'r heddlu.
- Gwneir pob ymdrech i gynorthwyo'r bwli(s) i newid ei/eu (h)ymddygiad.

### Canlyniadau

- Dylid gwneud iawn am unrhyw niwed a achosir gan fwlio/aflonyddu cyn gynted â phosibl,
- Dylai'r bwli/aflonyddydd gymryd cyfrifoldeb am y gweithredoedd. Er enghraifft, dylid gofyn iddynt gynnig ymddiheuriad diffuant.
- Yn unol â threfn disgyblu'r Urdd, gweithredir camau disgyblu penodol yn unol â difrifoldeb y sefyllfa.
- Mewn achosion difrifol, gellir gwahardd y bwli/aflonyddydd o ddigwyddiad penodol.



- Os oes modd, anogir cymodi.
- Yn dilyn ymchwilio i'r digwyddiad(au), bydd pob achos yn cael ei fonitro i sicrhau nad yw bwlio yn digwydd.

## 7. Gwybodaeth bellach

<b>Gwybodaeth a chymorth i blant a phobl ifanc</b>	
Llywodraeth Cymru - MEIC	<a href="https://www.meiccymru.org/cym/">https://www.meiccymru.org/cym/</a>
Kidscape	<a href="http://www.kidscape.org.uk">www.kidscape.org.uk</a>
Anti-bullying.org.uk	<a href="http://www.anti-bullyingalliance.org.uk/">http://www.anti-bullyingalliance.org.uk/</a>
BBC	<a href="https://www.bbc.co.uk/bitesize/support">https://www.bbc.co.uk/bitesize/support</a>
Childline	<a href="http://www.childline.org.uk">www.childline.org.uk</a>
Bullying UK	<a href="http://www.bullying.co.uk/">http://www.bullying.co.uk/</a>
<b>Gwybodaeth a chymorth i oedolion</b>	
Iechyd a Lles Oedolion GIG 111 Cymru	<a href="https://111.wales.nhs.uk/LiveWell/default.aspx?locale=cy">https://111.wales.nhs.uk/LiveWell/default.aspx?locale=cy</a>

Polisi a Chanllawiau Gwrth Fwlio a delio ag Aflonyddu

Fersiwn 12

Ebrill 2023

Arwyddwyd



**Sian Lewis**

**Prif Weithredwr**

## Ffurflen Cofnodi Achos o Fwlio

Ceisiwch gadw'r broses yn gyfeillgar yn hytrach nag yn ffurfiol, er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn teimlo mor gyfforddus â phosibl yn ystod proses a all achosi pwysau sylweddol iddo/iddi. Ysgrifennwch nodiadau a'i chwblhau'r ffurflen hon ar ôl trafod â'r unigolyn.

<b>Manylion aelod / aelod o staff / Gwirfoddolwr</b>	
Enw:	
Safle:	
<b>Manylion yr unigolyn sydd yn cael ei fwlio</b>	
Enw:	Dyddiad Geni:
Cyfeiriad:	
Enwau rhieni / gofalwyr os yn berthnasol:	
Cyfeiriad:	

Cofnodwch bopeth a ddywedwyd ac a adroddwyd (defnyddiwch ddalen(au) ychwanegol os oes angen)

Cwblhewch gefn y ffurflen hon

Urdd Gobaith Cymru

Dull gweithredu:

Adroddwyd i'r Cyfarwyddwr perthnsaol	Do <input type="checkbox"/>	Naddo <input type="checkbox"/>
Enw:	Dyddiad & Amser:	
Manylion y dull gweithredu, a'r gefnogaeth ddilynol a phresennol:		

Cyngor y gofynnwyd amdano:
Mudiad:
Person a roddodd y cyngor:
Dyddiad ac Amser:
Manylion y cyngor a dderbyniwyd:

Adroddwyd i'r Heddlu / Gwasanaethau Cymdeithasol	Do <input type="checkbox"/>	Naddo <input type="checkbox"/>
Enw:	Dyddiad ac Amser	
Safle:		
Manylion y cyngor a dderbyniwyd:		

Llofnodwyd gan y cyfwelydd, fel yr uchod .....

Dyddiad: .....

Dylid cadw'r ffurflen mewn cwpwrdd wedi'i gloi am gyfnod o hyd at flwyddyn, a dylai fod ar gael ar gyfer unigolion awdurdodedig yn unig. Dylid adolygu'r sefyllfa pan ddaw'r flwyddyn i ben.